Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 277 (Cy. 53)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n darparu ar gyfer gwneud benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n ymgymryd â chyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2017.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r cyfnod hwyaf y caniateir i gwrs rhan-amser bara er mwyn gallu cael ei ddynodi at ddibenion Rheoliadau 2017.

Mae rheoliad 4 yn cynyddu swm y benthyciad sydd ar gael.

Nid yw'r diwygiadau ond yn gymwys i'r ddarpariaeth o fenthyciadau mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 277 (Cy. 53)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018

*Gwnaed* *27 Chwefror 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *7 Mawrth 2018*

*Yn dod i rym* *19 Ebrill 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, dehongli, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257 a Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76 ac O.S. 2013/1881. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), gydag is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**1**).

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Ebrill 2018.

(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn gymwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, pa un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan Reoliadau 2017 ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

### Diwygio Rheoliadau 2017

**2.** Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Yn rheoliad 4 (cyrsiau dynodedig), yn lle paragraff (2) rhodder—

> "(2) At ddiben paragraff (1)(a) rhaid i'r cwrs fod yn un o'r canlynol—
>
> (a) cwrs llawnamser sy'n para un flwyddyn academaidd neu ddwy flynedd academaidd; neu
>
> (b) cwrs rhan-amser y mae fel arfer yn bosibl ei gwblhau mewn cyfnod o hyd at bedair blynedd academaidd."

**4.** Yn rheoliad 12 (swm benthyciad at radd feistr ôl-raddedig), yn y ddau le y mae'n digwydd, yn lle "£10,280" rhodder "£13,000".

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
27 Chwefror 2018

(**1**) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169).